# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2202 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Date | 17/09/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Anne-Louise Clark (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Lynette Jones (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Emma Bennett (Notify)<br>Andrew Day (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2565 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu |

| | |
|---|---|
| | ar y pryd. |

| Item ID | 2566 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd G. Collier. |

| Item ID | 2567 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 2570 |
|---|---|
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor i gynnal cyfarfodydd y dyfodol am 10.00 a.m. |

| Item ID | 2568 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 2664 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 13 Chwefror 2020 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. |

| Item ID | 2665 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Craffu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1: sef cymeradwyo Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol 2020-21. |

| Item ID | 2666 |
| --- | --- |
| Item Title | Ymateb Gwasanaethau Cymdeithasol i'r pandemig COVID-19 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i roi gwybodaeth i Aelodau i'r pandemig COVID-19 dros y 4 mis diwethaf.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o ymateb y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i COVID-19. Dywedodd bod y Gyfarwyddiaeth yn parhau i ddelio gyda'r feirws ac ar yr un pryd yn ceisio symud yn araf ac yn ddiogel tuag at adferiad, er fod ail don yn bosibl, yn arbennig yn yr ychydig fisoedd nesaf neu'n gynnar y flwyddyn nesaf.<br><br>Gobeithiai'r Cyfarwyddwr ei bod yn gysur nad yw'r pandemig wedi cyrraedd ei sefyllfa achos gwaethaf yng nghyswllt capasiti ysbytai ac roedd cymorth yn y gymuned wedi medru ymdopi gyda'r achosion dechreuol yn lleol ac yn rhanbarthol y tro cyntaf oherwydd cydweithio gan bob partner. Bu cynnydd mawr mewn rhai awdurdodau cyfagos a chafodd mesurau diogelu mewnol estynedig eu rhoi ar waith. Pwysleisiodd, os nad yw pobl yn parhau i ddilyn rheolau pellter cymdeithasol, hylendid dwylo ac arferion diogelwch eraill yna gall ddod yn fwy cyffredin yn ardal Blaenau Gwent.<br><br>Diolchodd Aelod i'r holl asiantaethau cysylltiedig, ein hasiantaethau ein hunain ac asiantaethau partner, am eu gwaith gwych, gwerthfawrogid eu gwaith caled yn fawr iawn. Dywedodd y Cadeirydd fod holl Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno gyda'r sylwadau hyn a roedd hefyd eisiau mynegi ei gwerthfawrogiad i staff ac asiantaethau partner yn y gymuned.<br><br>**<u>Gwasanaethau Plant</u>**<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Plant drosolwg o sut mae Gwasanaethau Plant wedi ymdopi yn ystod y cyfnod hwn. Cadwyd gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) a rhoddwyd blaenoriaeth i ymchwiliadau diogelu ar gyfer plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Roedd nifer achosion plant yn derbyn gofal wedi gostwng o 214 i 207 a bu hefyd ostyngiad yn nifer y plant mewn gofal preswyl.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am blant sy'n derbyn gofal a phlant yn gadael gofal ac achosion newydd yn dod i ofal, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod cyfuniad o'r ddau a disgwylid cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Yn nhermau plant yn gadael gofal roedd rhai yn dychwelyd at eu rhieni a chafodd rhai eu mabwysiadu. Mae adroddiad llawn yn cael ei baratoi a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 5 Tachwedd a fyddai'n cynnwys mwy o wybodaeth fanwl.<br><br>Holodd Aelod os yw'r gwasanaeth yn rhagweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau nawr fod ysgolion wedi ailagor. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod Addysg yn un o'r atgyfeirwyr mwyaf ac felly mae'r Gwasanaeth yn rhagweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan gydweithwyr |

yn yr adran Addysg, er na fu unrhyw gynnydd mawr mewn atgyfeiriadau hyd yma. Mae hefyd rai mesurau rhagweithiol megis gwasanaethau ataliol yn Teuluoedd yn Gyntaf. Nodwyd y cafodd 4 gweithiwr cymdeithasol eu clustnodi i ysgolion er mwyn cefnogi athrawon a phlant.

Mynegodd Aelod siom nad yw'r adroddiad yn sôn am y Trydydd Sector na'r Sector Gwirfoddol. Rhoddodd yr Aelod enghraifft h.y. prydau ysgol am ddim. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y bu ganddynt ran sylweddol wrth ddiwallu anghenion y gymuned, fodd bynnag, diben yr adroddiad yw i'r Pennaeth Gwasanaethau Plant ar sut y mae'r Gwasanaethau Plant wedi ymateb i COVID-19.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y staff wedi cydweithio ar draws y sector i reoli'r achosion ac y bu'r cydweithio hwnnw yn hanfodol.

**Gwasanaethau Oedolion**

Ar wahoddiad y Cadeirydd rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion drosolwg o sut yr ymatebodd Gwasanaethau Oedolion yn ystod y cyfnod hwn. Dywedodd eu bod, yn yr un modd â Gwasanaethau Plant, wedi cynnal y gwasanaeth IIA ac wedi parhau i roi cefnogaeth yng nghartrefi pobl gyda staff yn gwisgo PPE llawn ar bob ymweliad. Roedd pwysau sylweddol ar Wasanaethau Oedolion ac ar y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a bu angen i symud staff i weithio 7 diwrnod o'r trefniadau gwaith 5 diwrnod presennol. Roedd y Gwasanaeth wedi cymryd drosodd wrth redeg Prydau Cymunedol o 1 Ebrill a bu cynnydd yn y galw am brydau bwyd. Roedd lefelau staffio wedi gostwng i ddechrau ond wedi adfer yn eithaf cyflym ac mae'r Gwasanaeth yn awr yn ôl i gapasiti.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am gynnydd mewn cysylltiad gydag aelodau bregus a gan oedolion nad oeddent wedi ystyried eu hunain yn fregus yn y gorffennol, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y bu cynnydd sylweddol yn nhermau cyswllt â'r Adran, yn neilltuol gyda phobl a gollodd hyder ac oedd angen cymorth wrth gael mynediad i wasanaethau cymunedol. Bu cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau gan bobl yn profi effaith i'w llesiant meddwl. Holodd yr Aelod os byddai angen mwy o staff i ymdopi gyda'r galw. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod yr Adran yn rhoi blaenoriaeth i'r llwyth gwaith, mae staff wedi gweithio'n galed tu hwnt yn y chwe mis diwethaf a byddir yn monitro'r gofynion ar staff yn arbennig os oes cynnydd newydd.

Holodd Aelod arall am gyfnod glo pellach ac effaith hynny ar gartrefi gofal preswyl a phreswylwyr oedrannus ac anabl. Holodd hefyd am ddarparu gwasanaethau prydau cymunedol mewn cartrefi gofal preswyl, os na fedrai'r trydydd sector weithredu fel y gwnaeth yn flaenorol, a fyddai cynnydd mawr yn y galw i'r Awdurdod Lleol i ddosbarthu prydau bwyd i gartrefi gofal preswyl.

Yng nghyswllt cartrefi gofal, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod

pryderon sylweddol am gynaliadwyedd pob darparydd allanol ond rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod y gwasanaeth yn gweithio'n agos iawn gyda gwasanaethau a gomisiynwyd y Cyngor a fedrodd fanteisio o'r gronfa caledi a heb y buddsoddiad hwn gallai cartrefi gofal fod wedi cau. Cafodd y berthynas waith gyda darparwyr allanol ei chryfhau oherwydd y trefniadau gwaith agos ac mae'r Gwasanaeth mewn sefyllfa dda i wybod pa gymorth cymunedol sydd ar gael yn nhermau'r Gwasanaeth Prydau Cymunedol. Roedd capasiti i gynyddu'r nifer o brydau bwyd a gaiff eu dosbarthu'n ddyddiol, fodd bynnag ni fu cynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaeth hwnnw. Pe byddai hynny'n digwydd, byddai'n anodd rhagweld beth fyddai yn ei olygu ac os byddai hyn yn effeithio ar yr henoed.

Holodd Aelod am staff o'r sector gwirfoddol a fu ar gyfnod ffyrlo ac sydd bellach wedi dychwelyd i'r gwaith a gofynnodd os gallai'r Awdurdod ymdopi hebddynt os oes ail gyfnod clo. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion nad cyfrifoldeb Gwasanaethau Cymunedol yw'r ymateb cymunedol i COVID-19 ac y byddai'n trosglwyddo'r ymholiad am bryderon i'r Adran Gwasanaethau Masnachol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol yn canolbwyntio ar y bobl hynny yr oedd Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod amdanynt, tra bod cydweithwyr Corfforaethol yn canolbwyntio ar faterion ehangach ar draws cymunedau.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Aelodau eu bod yn disgwyl manylion gan Lywodraeth Cymru am fodel sefyllfa achos gwaethaf a byddai'n edrych ar y model ar sail awdurdod lleol i ystyried pa fesurau y gellid eu rhoi yn eu lle a byddai lefelau staffio yn rhan o hyn. Roedd rhai gwasanaethau wedi dod i ben yn y cyfnod clo cyntaf ac roedd rhai wedi parhau i gael eu darparu wedi eu hybu gan staff o'r gwasanaethau oedd wedi eu hatal. Os byddai cyfnod clo hir, mae'n debyg y byddai'r Gyfarwyddiaeth yn symud yn ôl i'r trefniant hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod parthed seibiant ar gyfer gofalwyr a ph'un oedd y gwasanaethau hynny yn ôl ar gael, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol na chawsant erioed eu hatal gan eu bod yn rhan o gontractau gofal yn y cartref. Caiff seibiant yn awr ei gynnig am 3 diwrnod yr wythnos ynghyd â diwrnod ar gyfer glanhau dwfn a gellir hefyd ei ddarparu o fewn eu cartref eu hunain i roi seibiant gofalwyr Byddai staff yn gwisgo PPE llawn a fedrai fod yn anodd wrth gefnogi rhywun gyda dementia neu ymddygiad heriol. Mae gwasanaethau yn parhau a chânt eu cefnogi lle bynnag sydd modd.

Holodd Aelod os byddid angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer staff ychwanegol pe byddai cyfnod clo arall. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ein bod yn dal i aros am gadarnhad am gyllid ar ôl mis Hydref. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol na chafwyd unrhyw gadarnhad parthed cyllid pellach ar ôl mis Hydref 2020.

Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad i holl staff Gwasanaethau Plant ac Oedolion am eu gwaith gwych. Roedd Aelodau hefyd yn dymuno diolch i'r staff a phartïon allanol am eu holl waith caled a diolchodd yn fawr i

ofalwyr maeth oedd wedi cefnogi'r Awdurdod yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**Materion Cymdeithasol**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol drosolwg o faterion cenedlaethol a gododd yn ystod y pandemig.

PPE – ar y dechrau bu anawsterau gyda'r cyflenwad o PPE oherwydd prinder byd-eang a rhoddwyd blaenoriaeth i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ond ar hyn o bryd mae cyflenwad o tua 4 wythnos yn ei le. Cafodd dros filiwn o ddarnau o PPE eu dosbarthu ar draws ardal Blaenau Gwent a rhoddodd y Cyfarwyddwr sicrwydd i Aelodau fod gan yr holl staff y PPE angenrheidiol i wneud eu gwaith yn ddiogel.

Profi – bu problemau gyda profi staff yn dangos symptomau COVID-19 ar ddechrau'r achosion gan fod lleoedd wedi eu cyfyngu i 15 ym mhob awdurdod lleol. Mae'r sefyllfa wedi gwella dros yr ychydig fisoedd diwethaf gan y cafodd y terfyn o 15 lle i bob awdurdod lleol ei ddileu. Bu problemau am gapasiti o fewn labordai a phorth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried i sicrhau y defnyddir labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer profion.

Cartrefi Gofal – mae preswylwyr a staff Cartrefi Gofal yn awr yn cael eu profi bob bythefnos. Mae Blaenau Gwent yn berchen ar 1 cartref gofal ac wedi comisiynu gwasanaethau gyda 14 cartref gofal preifat. Mae data allweddol o bob cartref gofal ar draws Gwent yn cael ei gasglu i sicrhau ymateb cyflym i achosion. Ar hyn o bryd mae 8 cartref glân nad oedd erioed wedi cael achosion neu gartref gofal lle na bu achos am y 28 diwrnod diwethaf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am brofion rheolaidd ar staff cartrefi gofal, nyrsys a chartrefi cartrefi gofal yn gweithio yn y gymuned, yng nghyswllt staff cartrefi gofal, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol y cynhaliwyd profion wythnosol tan fis Awst, fodd bynnag gan mai ychydig iawn o ganlyniadau positif a fu, penderfynwyd symud i brofion bob dwy wythnos a gynhaliwyd gan labordai Lighthouse a bu peth oedi wrth gael canlyniadau. Ni wyddai os oedd profion rheolaidd yn cael ei wneud yn yr un modd ar gyfer staff Iechyd â gyda staff cartrefi gofal. Yng nghyswllt staff gofal yn y cartref sy'n ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain, sefyllfa Llywodraeth Cymru oedd nad oedd unrhyw brofion rheolaidd yn cael eu cynnal.

Dywedodd Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor y gobeithient y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn yn y dyfodol gan y teimlent y dylai staff gofal cartref gael eu profi'n rheolaidd.

Gofynnodd Aelod am eglurhad am y ffigurau yng nghyswllt pwynt 6.19 yr adroddiad a'r diweddariad a roddodd y Cyfarwyddwr. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y ffigurau ychydig yn wahanol i'r adroddiad gan ei fod wedi rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf i Aelodau.

| | |
|---|---|
| | Holodd Aelod am PPE ac os yw'r cyflenwad sydd mewn stoc ar hyn o bryd yn cynnwys cyflenwadau cartrefi gofal. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod yn cynnwys cartrefi gofal gan eu bod yn awr yn dod at yr awdurdod lleol i ofyn am gyflenwadau PPE.<br><br>Holodd yr Aelod hefyd am nifer y marwolaethau a gafodd eu cofrestru yn gysylltiedig gyda chartrefi gofal. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bu 28 marwolaeth gyda COVID-19 ar y dystysgrif marwolaeth ar draws holl gartrefi gofal Blaenau Gwent o fis Mawrth tan fis Mai.<br><br>Yng nghyswllt profion, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai penderfyniad Llywodraeth Cymru oedd symud o brofion wythnosol i brofion bob dwy wythnos gan mai ychydig iawn o achosion positif oedd bryd hynny. Gofynnodd yr Aelod os byddai'n bosibl mynd yn ôl i brofion wythnosol fel y gwnaeth awdurdod cyfagos pe byddai nifer yr achosion positif yn cynyddu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Cyngor Caerffili wedi dychwelyd i brofion wythnosol yn eu cartrefi gofal a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan gyda chanlyniadau'r profion yn dod o labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru a theimlid, pe byddai cyfnod clo lleol o fewn Blaenau Gwent, y medrid dilyn y broses hon gyda phrofion wythnosol ar staff a phreswylwyr.<br><br>Yng nghyswllt cydweithio a gweithio partneriaeth, holodd Aelod os byddai hyn yn parhau ar ôl i'r pandemig ddod i ben. Dywedodd y Cyfarwyddwr y bu bob amser berthynas waith agos gyda phartneriaid ar draws Blaenau Gwent a bod pandemig COVID-19 wedi cryfhau hyn. Gobeithiai y byddai hyn yn parhau ac y caiff ei gryfhau ymhellach.<br><br>Holodd Aelod os yw cartrefi gofal yn dilyn eu canllawiau profi eu hunain neu'n dilyn canllawiau cenedlaethol a sut y gynhelir profion ar eu cyfer. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod cartrefi gofal yn dilyn canllawiau cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru. I ddechrau mae staff a phreswylwyr Cartrefi Gofal yn cael eu profi gan staff Iechyd. Ar hyn o bryd caiff swabiau eu cymryd gan y staff eu hunain gyda chefnogaeth cydweithwyr yn y gwasanaeth Iechyd drwy fideos ar-lein fel y gallent gynnal y prawf yn gywir.<br><br>Yng nghyswllt canolfannau profi yng Nghasnewydd a Cwm, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gall staff iechyd gael eu hannog i fynychu'r cyfleusterau yn Rodney Parade yng Nghasnewydd gan eu bod yn defnyddio labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru ac y ceir canlyniadau ynghynt na'r cyfleusterau yn Cwm, sy'n cael eu rhedeg yn breifat.<br><br>**<u>Effaith ar y Gyllideb</u>**<br><br>Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol drosolwg o effaith COVID-19 ar y gyllideb. Cyflwynwyd hawliadau i Lywodraeth Cymru am gyllid o'r gronfa Caledi ar gyfer y cyfnod mis Mawrth i fis Gorffennaf 2020 am £2.4m i gyllido costau ychwanegol a gafwyd fel canlyniad i ymateb y Cyngor i'r pandemig, gyda £1.06m o hynny yn ymwneud â gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu peth colled incwm o gartrefi gofal hefyd oherwydd gohirio ac ailstrwythuro gwasanaethau |

| | |
|---|---|
| | oherwydd COVID-19, fodd bynnag gallodd y Cyngor hawlio yn erbyn colled incwm gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Canmolodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r ddau Bennaeth Gwasanaeth waith yr holl staff rheng-flaen yn cynnwys staff y Cyngor, darparwyr allanol, cydweithwyr yn y trydydd sector, gofalwyr maeth a'u goruchwylwyr a'u rheolwyr a fu'n gweithio'n ddiflino ac yn drugarog dan bwysau di-baid i sicrhau cynnal gwasanaethau dros y chwe mis diwethaf.<br><br>Cododd Aelod bryder am y swm o gyllid y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu a pha brosiectau fyddai'n cael eu hystyried ar gyfer y cyllid hwn. Dywedodd y cafodd £8.2 miliwn ei ddyrannu i ddigartrefedd ar draws Cymru a gofynnodd am i Aelodau gael gwybod pa brosiectau oedd yn cael eu hystyried yn eu hardaloedd.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd digartrefedd yn dod o fewn cylch gorchwyl y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ond y byddai'n cyfleu'r pryderon hyn i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol i sicrhau eu bod yn cyfathrebu gydag Aelodau am ba brosiectau sy'n cael eu hystyried yn eu wardiau.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am effaith COVID-19 ar gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol, dywedodd y Cyfarwyddwr fod Llywodraeth Cymru wedi cwestiynu rhai hawliadau ond mai symiau bach oedd y rhain ac nad oeddent wedi effeithio'n sylweddol ar y gyllideb. Mae gan y Gyfarwyddiaeth danwariant ar ôl y chwarter cyntaf ac yn llwyddo i ymdopi. Pe byddai cynnydd mawr arall mewn achosion, yna byddai hyn yn dibynnu ar gefnogaeth bellach gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa Caledi wedi galluogi'r Gyfarwyddiaeth i hawlio am golled incwm a bu hyn yn help sylweddol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef derbyn yr adroddiad fel y cafodd ei ddarparu. |